TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Dyddiad cyhoeddi: 14 Medi 2020

Llwybr Cerddwyr Newydd Arfaethedig o arhosfan Coryton/gorsaf yr Eglwys Newydd Caerdydd

Diolch am eich cais Deddf Rhyddid Gwybodaeth ar 13 Awst 2020. Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth. Mae'n ddrwg gennym am ymateb yn hwyr i'ch cais.

Gofynnoch am:

- wybodaeth am y cytundeb/caniatâd y mae Trafnidiaeth Cymru wedi ymrwymo iddo o ran y cais cynllunio hwn
- yr amserlen i gwblhau'r gwaith.
- gwybodaeth am unrhyw arian y cytunwyd arno rhwng Trafnidiaeth Cymru a GIG Prifysgol Felindre ac unrhyw randdeiliaid eraill fel Cyngor Dinas Caerdydd neu Lywodraeth Cymru.

Gallaf gadarnhau nad yw Trafnidiaeth Cymru yn cadw unrhyw wybodaeth am y cytundeb/ caniatâd cynllunio dan sylw. Gwnaed y cais cynllunio dan sylw gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Nid yw Trafnidiaeth Cymru wedi ymrwymo i unrhyw gytundeb/caniatâd mewn perthynas â'r cais cynllunio hwn.

Gallaf gadarnhau nad oes gan Trafnidiaeth Cymru unrhyw wybodaeth am yr amserlen i gwblhau'r gwaith hwn.

Gallaf gadarnhau nad ydym yn ymwybodol o unrhyw arian sydd wedi'i gytuno rhwng unrhyw bartïon a nodir fel rhan o'r cais cynllunio hwn.

Yn gywir

Jeremy Morgan

Trafnidiaeth Cymru